Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 316 – 20 Tachwedd 2008
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2008.

1. Adroddiad y Cadeirydd

Nododd y Cadeirydd fod cyfarfod cyhoeddus llwyddiannus wedi ei gynnal yng nghanolfan gelfyddydau'r Bluecoat yn Lerpwl gyda chynulleidfa o oddeutu 80 o bobl yn bresennol. Roedd ystod oedran y gynulleidfa yn galonogol ac roedd llawer un yn awyddus i fynegi barn yn bositif ac weithiau'n feirniadol am arlwy S4C.

Nododd y Cadeirydd bod y gwaith o adnewyddu swyddfeydd Llanisien ar fin cael ei gwblhau. Mae'r adeilad bellach yn edrych yn hardd a modern. Diolchodd i'r holl staff am eu cydweithrediad yn ystod cyfnod y gwaith adeiladu a'r symud yn ôl i mewn i'r swyddfeydd. Mae Swyddfa Caernarfon hefyd wedi symud ac mae'r Cadeirydd wedi ymweld â'r swyddfeydd yn Noc Fictoria.

Nododd y Cadeirydd ei fod ef a'r Prif Weithredwr wedi cyfarfod Huw Jones a Geraint Talfan Davies yn ddiweddar.

2. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei hadroddiad.

Nododd y Prif Weithredwr fod gwasanaeth newydd ITV Local Cymru wedi ei lansio yn swyddogol ddoe. Mae'r gwasanaeth yn dangos sut y mae modd i S4C greu partneriaethau strategol gyda darlledwyr eraill a chynnig gwasanaethau amgenach i wylwyr.

3. Datganiad Polisi Caffael S4C

Cyflwynwyd y Datganiad Polisi Caffael diwygiedig i'r Awdurdod. Cymeradwywyd y Datganiad.

4. Adroddiad a Chyflwyniad Ymchwil

Cafwyd cyflwyniad ymchwil gan Carys Evans. Cafwyd hefyd gyflwyniad gan Jon Priest o gwmni SPA ar wasanaeth tracio delwedd, canlyniadau Gorffennaf/Awst 2008.

5. Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu